CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI, CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw/Cyfeiriad y Darparwr:	Cartrefi Cwtch, Woodland Lodge, Trelyn, Coed Duon
Dyddiad/Amser yr Ymweliad:	Dydd Llun 10 Hydref 2022
Swyddog(ion) Ymweld:	Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC)
Yn bresennol:	Clare Williams, Rheolwr y Cartref Nichola Evans, Unigolyn Cyfrifol Morgan Thomas, Cydlynydd Gweithgareddau

1 Cefndir

1.1 Cartref preswyl bach i unigolion ag anableddau dysgu yw Woodland Lodge, a chaiff ei redeg gan Cartrefi Cwtch ers mis Ionawr 2022. Mae gan y gwasanaeth chwaer-gartref, sydd hefyd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a chaiff y ddau gartref eu rheoli gan Ms Williams.

1.2 Byngalo sengl ym mhentref bach Trelyn sy'n gallu darparu ar gyfer pedwar unigolyn yw Woodland Lodge. Ar adeg yr ymweliad, roedd y cartref yn llawn.

1.3 Ers mis Ionawr 2022, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael un gŵyn ddienw am y gwasanaeth. Ymchwiliodd yr Awdurdod Lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i'r gŵyn, a phenderfynwyd nad oedd sail iddi. Mae un atgyfeiriad diogelu wedi dod i law ers mis Ionawr 2022. Aethpwyd i'r afael â materion drwy'r broses ddiogelu a'r broses ddisgyblu.

1.4 Ar ddiwrnod yr ymweliad, cyfarfu'r swyddog monitro â Rheolwr y Cartref, yr Unigolyn Cyfrifol, y Cydlynydd Gweithgareddau a'r staff gofal, a chafodd sgwrs â'r tri unigolyn a oedd yn byw yn y cartref. Roedd un unigolyn yn yr ysbyty ar adeg yr ymweliad ac roedd disgwyl iddo ddychwelyd i'r cartref yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw.

1.5 Nid yw'r gwasanaeth hwn wedi cael ei fonitro ers 2018. Yn ystod pandemig COVID-19, at ddibenion rheoli heintiau, ni fu unrhyw fonitro wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, cysylltwyd â'r ddau Reolwr Cartref blaenorol dros y ffôn yn wythnosol.

1.6 Prynodd Cartrefi Cwtch y busnes ym mis Ionawr 2022 ac, felly, hwn oedd ymweliad monitro cyntaf yr Awdurdod Lleol â'r darparwr. Hyd yma, nid yw'r darparwr wedi cael ei arolygu gan AGC.

1.7 Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, caiff y darparwr gamau unioni a datblygiadol i'w cwblhau. Camau unioni yw'r camau hynny y mae'n rhaid eu cwblhau (yn unol â'r ddeddfwriaeth), ac argymhellion arfer da yw camau datblygiadol.

2 Canfyddiadau

2.1 Dogfennaeth

2.1.1 Gwelwyd bod yr holl ddogfennau'n cael eu storio'n ddiogel.

2.1.2 Fel rhan o'r broses fonitro, archwiliwyd ffeiliau dau breswylydd.

2.1.3 Roedd y ffeiliau'n cynnwys Cynlluniau Personol manwl newydd, a luniwyd gan y perchnogion newydd, a oedd yn cynnwys yr wybodaeth a amlinellir yng Nghynllun Gofal CBSC. Mae'r Cynlluniau Personol yn ddigon manwl i helpu'r staff i roi cymorth a chefnogaeth briodol i'r unigolion sy'n byw yn Woodland Lodge. Fodd bynnag, er bod y cynlluniau'n cynnwys gwybodaeth fanwl ac yn nodi bod y gweithiwr cymdeithasol a'r cydlynydd gweithgareddau wedi helpu i'w llunio, nid oedd tystiolaeth i ategu hyn, h.y. llofnodion.

2.1.4 Ni welwyd asesiadau cyn derbyn yn y naill ffeil na'r llall; fodd bynnag, y perchnogion blaenorol a drefnodd y ddau leoliad ac mae un unigolyn wedi bod yn byw yn y cartref ers 1999. Yn y dyfodol, bydd yn ofynnol i Cartrefi Cwtch gynnal asesiad cyn derbyn cyn rhoi lle i unrhyw unigolion newydd yn y naill gartref neu'r llall.

2.1.5 Yn y Cynlluniau Personol, gwelwyd cyfeiriadau at risgiau, ynghyd â gwybodaeth i ddangos sbardunau araf a chyflym a chamau i'w datrys. Fodd bynnag, nid oedd Asesiad Risg unigol ar gyfer pob risg yn bresennol. Pan drafodwyd hyn gyda Rheolwr y Cartref, dywedwyd wrth y swyddog ymweld fod Rheolwr y Cartref a'r Cydlynydd Gweithgareddau yn ymgymryd â hyfforddiant gan y Sefydliad Diogelwch Galwedigaethol ac Iechyd (IOSH) yn y maes hwn ac, ar ôl ei gwblhau, y byddant yn gweithio drwy bob ffeil unigol ac yn llunio Asesiadau Risg manwl.

2.1.6 Cynhelir adolygiadau bob mis. Bydd Rheolwr y Cartref a'r Cydlynydd Gweithgareddau'n archwilio cofnodion dyddiol y mis ac, o ganlyniad i hynny, yn bwrw golwg dros bob agwedd ar y Cynllun Personol. Mae Rheolwr y Cartref wedi gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol yn ystod y broses adolygu; fodd bynnag, mae angen dangos tystiolaeth o hyn, a hynny ar ffurf llofnod os oes modd.

2.1.7 Roedd y cofnodion dyddiol a oedd yn cael eu cwblhau gan y staff yn adlewyrchu'r meysydd a nodir yn y cynlluniau personol. Roedd y cofnodion a welwyd wedi cael eu llofnodi gan y staff ac yn cofnodi'r cymorth a roddir i'r unigolion er mwyn diwallu eu hanghenion. Roedd cofnodion yn cael eu cadw ynglŷn â hwyliau, meddyginiaeth, problemau iechyd, cyflwr y croen, unrhyw ymwelwyr h.y. gweithwyr proffesiynol a pherthnasau. Hefyd, bydd y staff yn cofnodi gwibdeithiau/gweithgareddau y bydd yr unigolyn yn cymryd rhan ynddynt, h.y. siopa, mynd i fwytai, anwesu anifeiliaid ar ffermydd, mynd i'r sinema.

2.1.8 Ceir canlyniadau/nodau y bydd pobl yn anelu atynt, e.e. sicrhau bod unigolyn yn meithrin sgiliau rhyngbersonol ac yn mynd allan i'r gymuned.

2.1.9 Roedd y ffeiliau'n dangos bod y staff yn Woodland Lodge yn gwneud atgyfeiriadau priodol at asiantaethau allanol, h.y. atgyfeiriadau at feddyg teulu ac optegydd ac, yn ddiweddar, roeddent wedi cysylltu â'r gwasanaethau brys er mwyn cael cymorth.

2.1.10 Nid oedd pob ffeil yn cynnwys cytundeb ysgrifenedig a manylion y perthnasau/cynrychiolwyr y dylid cysylltu â nhw mewn argyfwng. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes gan rai o'r preswylwyr berthnasau agos sy'n cynnig cefnogaeth a chymorth ac, felly, y darparwr sy'n gyfrifol am gymryd camau priodol mewn argyfwng.

2.1.11 Gwelwyd Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng.

2.2 Sicrhau ansawdd

2.2.1 Yr Unigolyn Cyfrifol sy'n gyfrifol am oruchwylio digonolrwydd adnoddau'r gwasanaeth ac, fel y cyfryw, rhaid iddo lunio adroddiad bob chwarter. (RISCA Rheoliad 74). Hefyd, mae dyletswydd ar yr Unigolyn Cyfrifol i sicrhau bod system ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth a dylid adolygu'r system honno yn ôl yr angen ond o leiaf unwaith bob chwe mis (RISCA Rheoliad 80).

2.2.2 Gwelwyd copi o'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd ar gyfer mis Gorffennaf 2022. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag amrywiaeth o agweddau ar y gwasanaeth ac yn disgrifio'r hyn y mae'r darparwr yn ei wneud orau a meysydd lle mae angen gwella.

2.2.3 Mae'r adroddiad yn cynnwys adborth gan weithwyr proffesiynol yr Awdurdod Lleol sydd wedi gweithio gyda Cartrefi Cwtch.

2.3 Staffio a hyfforddi

2.3.1 Mae gan y cartref gyfradd cadw staff ardderchog, ac mae'r staff yn fwy na pharod i weithio fel tîm a gweithio pan fydd aelodau eraill o staff yn absennol.

2.3.2 Yn ystod y 9 mis diwethaf, mae dau aelod o'r staff wedi gadael cyflogaeth y darparwr.

2.3.3 Ar adeg yr ymweliad, nid oedd Cartrefi Cwtch wedi cyflogi'r un aelod newydd o staff yn Woodland Lodge. Mae'r grŵp staff presennol yn cynnwys cyflogeion sydd wedi bod yno ers tro.

2.3.4 Edrychwyd ar ffeiliau dau aelod o'r staff, ac roedd y ddau'n cynnwys dau eirda ysgrifenedig, Telerau ac Amodau, ffurflen gais fanwl; fodd bynnag, nid oedd y naill ffeil na'r llall yn cynnwys cofnod o gyfweliad. Roedd sylw Rheolwr blaenorol y Cartref wedi cael ei dynnu at hyn, ac mae'n fater y bydd angen i'r perchnogion ei ystyried wrth gyflogi aelodau newydd o staff.

2.3.5 Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwelwyd tystysgrifau hyfforddiant yn y ffeiliau yr edrychwyd arnynt hefyd.

2.3.6 Cynhelir sesiynau goruchwylio un i un ar gyfer y staff bob tri mis. Nid oes arfarniadau wedi cael eu cynnal eto; fodd bynnag, dywedodd Rheolwr y Cartref y caiff y rhain eu trefnu ar gyfer mis Tachwedd/Rhagfyr.

2.3.7 Edrychodd y swyddog ymweld ar y Matrics Hyfforddiant a ysgrifennir â llaw, sy'n nodi pa hyfforddiant sy'n ofynnol a phryd. Argymhellir y dylid llunio matrics hyfforddiant electronig ffurfiol er mwyn helpu Rheolwr y Cartref a chynorthwyo gwaith monitro/arolygiadau yn y dyfodol.

2.4 Bywyd yn y cartref

2.4.1 Wrth gyrraedd yr eiddo, derbyniodd Rheolwr y Cartref archeb yr oedd wedi'i gwneud ar gyfer un o'r unigolion, sef llyfr ffotograffau a oedd yn cynnwys ffotograffau o ddiwrnodau allan a gwyliau.

2.4.2 Roedd y staff yn awyddus i siarad am wyliau'r unigolyn, gan ddweud wrth y swyddog monitro am y daith yno ac yn ôl a'r hwyl a gafodd yr unigolyn. Maent yn gobeithio y gellir trefnu gwyliau arall y flwyddyn nesaf a soniodd Rheolwr y Cartref y byddai unigolyn arall yn ymuno ar y gwyliau hefyd.

2.4.3 Mae'r ffaith bod gan un unigolyn ei gerbyd ei hun sydd wedi'i addasu yn ei gwneud hi'n haws iddo fanteisio ar amwynderau. Dywedodd Rheolwr y Cartref fod y staff bellach yn mynd â'r unigolion allan i'r gymuned yn amlach, a bod hyn yn rhywbeth y mae'r perchnogion newydd yn awyddus i'w annog.

2.4.4 Roedd yn braf gweld un aelod o'r staff yn canu gydag unigolyn ac yn dal ei law. Gwelwyd rhyngweithio cadarnhaol.

2.4.5 Mae Cynllunwyr Gweithgareddau ar waith; fodd bynnag, gall y rhain newid. Gall un unigolyn fynegi'r hyn yr hoffai ei wneud. I'r unigolion na allant gyfleu eu dymuniadau, cynhelir gweithgareddau synhwyraidd a gwibdeithiau yn y car er mwyn mynd am dro o amgylch y parc lleol.

2.4.6 Cynigir dewis o fwyd i'r unigolion, a chaiff y bwyd ei archebu ar-lein. Caiff dewisiadau amgen eu cynnig i'r unigolyn os na fydd am gael yr hyn sydd ar y fwydlen wythnosol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r staff gynnig deiet penodol i'r rhai sydd ag alergeddau bwyd. Caiff yr holl brydau bwyd eu coginio yn y cartref, a gwelodd y swyddog monitro hyn yn digwydd.

2.4.7 Mae'r preswylwyr yn helpu i baratoi'r prydau, a dywedwyd wrth y swyddog monitro eu bod i gyd yn mwynhau'r ymarferion pobi.

2.4.8 Ceisir cyngor gan ddietegydd a therapydd lleferydd ac iaith yn ôl yr angen.

2.4.9 Mae gan yr eiddo ardd hyfryd a chymdogion cyfeillgar.

2.4.10 Gwelwyd y pedair ystafell wely, ac roedd pob un yn lân ac yn daclus. Mae'r ystafelloedd wedi'u haddurno yn unol â chwaeth yr unigolion ac ni sylwyd ar arogleuon drwg na pheryglon yn ystod yr ymweliad.

2.4.11 Nid oes neb yn y cartref ar hyn o bryd sy'n cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg (y Cynnig Rhagweithiol). Pan holwyd sut mae'r Cynnig Rhagweithiol yn cael ei weithredu, dywedodd Rheolwr y Cartref y byddai'n dysgu Cymraeg syml er mwyn cyfathrebu.

2.4.12 Cafodd Woodland Lodge arolygiad Hylendid Bwyd ym mis Mai 2022 a chafodd sgôr o 3.

2.5 **Cyfarpar**

2.5.1 Mae teclyn codi ar gael i bob unigolyn sy'n byw yn y cartref ei ddefnyddio, os bydd angen. Mae slingiau bath wedi'u gosod ac mae pob preswylydd wedi cael asesiad ar gyfer eu defnyddio. Caiff y teclynnau codi eu gwasanaethu bob chwe mis gan Cymru Healthcare, a chaiff y cadeiriau olwyn eu gwasanaethu hefyd.

2.5.2 Mae platiau traed a gwregys diogelwch wedi'u gosod ar y cadeiriau olwyn a gaiff eu defnyddio ar hyn o bryd.

2.5.3 Caiff archwiliadau mewnol cyffredinol eu cynnal gan Reolwr y Cartref ac mae'r staff a thrydanwyr lleol yn cynnal profion PAT. Mae'r teclynnau wedi'u hyswirio ac, felly, os bydd unrhyw gyfarpar yn ddiffygiol, caiff cyfarpar newydd ei roi yn ei le.

2.6 Iechyd a Diogelwch

2.6.1 Ni chofnodwyd dim damweiniau/digwyddiadau yn ystod y mis diwethaf.

2.6.2 Cwblhawyd yr asesiad tân diwethaf ar 31 Awst 2022 a gwnaed argymhellion y mae Rheolwr y Cartref a'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio i'w rhoi ar waith.

2.6.3 Caiff ymarferion tân eu cynnal bob mis.

2.7 Cwynion a Chanmoliaeth

2.7.1 Os bydd angen i unigolion gael cymorth allanol i gyfleu eu dymuniadau a'u teimladau, bydd y darparwr yn gofyn am gael penodi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA).

2.7.2 Dim ond un gŵyn y mae'r cartref wedi'i chael, fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad.

2.7.3 Dywedodd y Rheolwr fod y cartref wedi cael canmoliaeth gan berthnasau a gweithwyr proffesiynol, h.y. Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol a fu'n gweithio gyda phreswylydd a fu farw'n ddiweddar, ers i'r perchnogion gymryd yr awenau. Cafodd y Rheolwr ei atgoffa y dylid casglu unrhyw ganmoliaeth a ddaw i law ynghyd a'i rhannu â'r Awdurdod Lleol.

2.7.4 Cwestiynau i'r Rheolwr a'r Staff

2.7.5 Yn ystod yr ymweliad monitro, siaradodd y swyddog ymweld â thri aelod o'r staff a gofynnodd gwestiynau am weithio yn Woodland Lodge. Llwyddodd pob aelod o'r staff i roi gwybodaeth fanwl am y pedwar preswylydd sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff wedi bod yn gweithio yn yr eiddo ers nifer o flynyddoedd ac felly maent yn adnabod y preswylwyr yn dda.

2.7.6 Mae gan y pedwar preswylydd anawsterau cyfathrebu ac esboniodd pob aelod o'r staff eu bod yn gwybod pa arwyddion i chwilio amdanynt wrth gyfathrebu â'r preswylwyr.

2.7.7 Dywedwyd wrth y swyddog ymweld fod y perchnogion newydd yn "dda iawn" ac yn gwrando ar unrhyw awgrymiadau sydd gan y staff. Dywedodd un aelod o'r staff wrth y swyddog monitro fod y staff yn cael eu gwobrwyo unwaith y mis gan y perchnogion, h.y. yn ystod misoedd poeth yr haf cafodd pecynnau diogelu rhag yr haul eu darparu, mae'r staff wedi cael therapi tylino'r corff a chyngor ar straen, ac mae cannwyll a phodlediad hefyd wedi cael eu rhoi iddynt. Mae'n amlwg bod y tîm rheoli'n awyddus i hyrwyddo cymorth iechyd a llesiant ar gyfer tîm y staff.

2.7.8 Pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn herio cydweithiwr petaent yn teimlo bod ei ymarfer yn wael, dywedodd aelodau o'r staff y byddent yn rhannu eu pryderon â Rheolwr y Cartref.

2.7.9 Hefyd, treuliodd y swyddog ymweld amser gyda'r Rheolwr er mwyn trafod y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Dywedodd y rheolwr nad oes gan y cartref system teledu cylch cyfyng ac nad oedd pryderon ynglŷn â'r eiddo, h.y. cyfarpar yn cael ei ddefnyddio (teclynnau codi), cyflenwad o ddŵr poeth. Roedd yr holl gyfarpar yn gweithio'n dda.

2.7.10 Dywedodd y Rheolwr y caiff gwaith ei wneud ar yr eiddo, o ganlyniad i'r arolygiad tân, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion a nodir yn adroddiad yr arolygiad. Bydd y Swyddog Monitro'n parhau i fonitro cynnydd o ran bodloni'r gofynion.

2.7.11 Mae'r perchnogion wedi gweithio ar yr eiddo, ac maent yn parhau i wneud hynny, heb darfu'n sylweddol ar y preswylwyr. Ers cymryd awenau'r busnes, mae Cartrefi Cwtch wedi gosod estyll tywydd a landeri newydd, mae ystafelloedd gwely'r preswylwyr wedi cael eu hailaddurno, mae soffas ac eitemau cegin newydd wedi cael eu prynu, yn ogystal ag oergell meddyginiaeth newydd, ac mae'r perchnogion yn parhau i ailaddurno ac adnewyddu'r cartref.

2.7.12 Mae'r Rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cwrdd bob dydd Llun yn Woodland Lodge a bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r chwaer-gartref yn rheolaidd hefyd.

2.7.13 Mae'r holl geisiadau i adnewyddu Trefniadau Diogelu Person wrth Amddifadu o Ryddid yn gyfredol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod ôl-groniad o geisiadau adnewyddu ar hyn o bryd.

2.7.14 Edrychodd y swyddog monitro ar bolisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys Datganiad o Ddiben y darparwr. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y dogfennau wedi'u dyddio ac felly argymhellir y dylid cynnwys dyddiad ar ddogfennau o'r fath er mwyn dangos y dyddiad adnewyddu/diweddaru.

3 Camau Unioni / Datblygiadol

3.1 Camau unioni

3.1.1 Dylid rhoi Asesiad Risg priodol ar waith (RISCA Rheoliad 57) **Amserlen:** Ar unwaith.

3.1.2 Er bod y cofnodion yn dangos bod gweithiwr cymdeithasol wedi helpu i ddatblygu'r Cynlluniau Personol, rhaid i'r darparwr ddangos tystiolaeth o hyn. Felly, mae'n ofynnol cael llofnodion i ddangos cyfranogiad (RISCA Rheoliad 15) **Amserlen:** O fewn tri mis ac yn barhaus.

3.1.3 Dylai'r Datganiad o Ddiben a'r Polisïau a Gweithdrefnau gynnwys dyddiad adolygu. (RISCA Rheoliad 7) **Amserlen:** O fewn mis.

3.2 **Camau datblygiadol**

3.2.1 Dylid llunio matrics electronig ar gyfer gweithgarwch goruchwylio a hyfforddi er mwyn helpu Rheolwr y Cartref a gweithwyr proffesiynol sy'n arolygu'r gwasanaeth.

3.2.2 Tystiolaeth bod trafodaethau DNACPR wedi cael eu cynnal gydag unigolion neu berthnasau/cynrychiolwyr.

3.2.3 Ar gyfer unigolion sydd â pherthnasau/cynrychiolwyr yn eu cefnogi, dylid rhoi cytundeb ysgrifenedig ar waith ynglŷn â chysylltu â nhw mewn argyfwng.

3.2.4 Dylai Rheolwr y Cartref gasglu unrhyw ganmoliaeth a ddaw i law ynghyd â'i rhannu â'r Awdurdod Lleol.

3.2.5 Dylai copi o unrhyw hysbysiadau rheoliad 60 a gyflwynir i'r rheoleiddiwr gael ei anfon at dîm Comisiynu CBSC hefyd. (Contract CBSC).

4 Casgliad

4.1 Roedd amgylchedd ac awyrgylch cartref Woodland Lodge yn gynnes, yn hamddenol ac yn groesawgar.

4.2 Roedd yn amlwg bod y perchnogion newydd wedi meithrin perthynas waith dda â'r gweithwyr proffesiynol sydd hefyd yn cefnogi'r bobl sy'n byw yn Woodland Lodge.

4.3 Gwelwyd y staff yn rhyngweithio'n dda â'r preswylwyr ac roedd pob wedi ymlacio yng nghwmni ei gilydd. Gwelwyd aelod o'r staff yn canu gyda phreswylydd ac yn treulio amser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau un i un.

4.4 Dangosodd Rheolwr y Cartref a'r Unigolyn Cyfrifol y byddant yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r preswylwyr, a gwella ansawdd bywyd yr unigolion.

4.5 Bydd y gwaith monitro'n parhau yn unol â'r bwriad, a hoffai'r swyddog monitro ddiolch i bawb dan sylw am y croeso a roddwyd yn y cartref.

Awdur: Caroline Roberts
Dynodiad: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: Hydref 2022

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd ar gais.